| | | |
|---|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Polisi Camynddwyn wrth Asesu<br>Assessment Malpractice Policy | COLEG CAMBRIA |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 2 | |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion) Students | |

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity**

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | *Polisi Camynddwyn wrth Asesu Cam 1 EIA*<br>*Assessment Malpractice Policy Stage 1 EIA* |
| *Effaith ar yr Iaith Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011. |

**Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval**

| | | |
|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen: Document Owner:** | *Is-bennaeth - Ansawdd*<br>*Vice Principal - Quality* | |
| **Ymgynghoriad / Consultation:** | *Tîm Ansawdd.*<br>*Tîm Arholiadau.*<br>*Deon AU*<br>*Pennaeth Systemau Gwybodaeth*<br>*Adnoddau Dynol*<br>*Partneriaeth Gymdeithasol*<br><br>*Quality team.*<br>*Exams team.*<br>*Dean of HE*<br>*Head of Information Systems*<br>*Human Resources*<br>*Social Partnership* | |
| **Dyddiad cymeradwyo / Date Approved** | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | *Amherthnasol*<br>*N/A* |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee: | *Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant*<br>*Comms & Culture Committee* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | - |
| **Dyddiad Adolygu:**<br>**Review Date:** 04/05/28 | Corff Llywodraethu / Body: | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee<br><br>Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | -<br><br>-<br><br>- |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae camymddwyn yn cynnwys y gweithredoedd hynny sy'n tanseilio uniondeb a dilysrwydd asesu, ardystio cymwysterau a/neu'n niweidio awdurdod y rhai sy'n gyfrifol am gynnal yr asesiad a'r ardystio. Nid yw'r Coleg yn goddef gweithredoedd o gamymddwyn (neu ymgais i wneud hynny) gan staff.

1.2. Gallai'r Coleg osod cosbau a/neu gamau disgyblu ar staff lle mae achosion o gamymddwyn (neu ymgais i gamymddwyn) wedi cael eu profi.

## 2. Cwmpas

2.1. Mae'r polisi hwn yn cwmpasu'r holl addysgu, dysgu ac asesu sy'n ymwneud ag addysg bellach, dysgu yn y gwaith, cysylltiadau ag ysgolion a darpariaeth dysgu cymunedol i oedolion. Mae polisi asesu addysg uwch wedi'i gynnwys yn y **Polisi Apeliadau Academaidd ar gyfer Addysg Uwch**, sy'n cyd-fynd â gofynion pob prifysgol bartner.

2.2 Mae'r polisi hwn hefyd yn gysylltiedig â'r **Polisi Camymddwyn Myfyrwyr.**

2.3 Mae'r polisi hwn yn defnyddio canllawiau'r gyngor Cymwysterau perthnasol fel sail i'w gynnwys. Cydnabyddir y gall y canllawiau hyn newid dros amser, ac o ganlyniad, gall unrhyw ganllawiau a roddir i gydweithwyr gael eu diweddaru yn achlysurol.

## 3. Pwrpas

3.1. Nod y polisi camymddwyn yw:

- 3.1.1. Diffinio camymddwyn yng nghyd-destun asesu ac ardystio.
- 3.1.2. Nodi hawliau a chyfrifoldebau'r Coleg a'i staff o ran camymddwyn.

3.2. Mae er budd myfyrwyr a staff y coleg i'r Coleg ymateb yn effeithiol ac yn agored i bob cais am ymchwiliad i ddigwyddiad o gamymddwyn, neu ddigwyddiad o gamymddwyn drwgdybiedig. Bydd Pennaeth y Ganolfan neu enwebai addas yn hysbysu staff y coleg neu'r dysgwr/wyr am unrhyw ddigwyddiad o gamymddwyn neu ddigwyddiad o gamymddwyn drwgdybiedig.

**4. Camymddwyn gan staff y coleg**

4.1. Dyma gategorïau o gamymddwyn fel y'u diffinnir gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (*JCQ*):

4.1.1 **Tor diogelwch:** Unrhyw weithred sy'n torri cyfrinachedd deunyddiau neu bapurau cwestiwn, ar hyn sy'n cyfateb iddynt yn electronig, neu gyfrinachedd sgriptiau ymgeiswyr neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt yn electronig

4.1.2 **Twyll:** Unrhyw weithred o anonestrwydd mewn perthynas ag arholiad neu asesiad

4.1.3 **Cymorth amhriodol i ymgeiswyr:** Unrhyw weithred lle rhoddir cymorth y tu hwnt i'r hyn a ganiateir gan y fanyleb neu'r rheoliadau i ymgeisydd neu grŵp o ymgeiswyr, sy'n arwain at fantais bosibl neu wirioneddol **mewn arholiad neu asesiad**

4.1.4 **Methu cydweithredu ag ymchwiliad**

4.1.5 **Camweinyddu:** Methu â chadw at y rheoliadau ynghylch cynnal asesiadau rheoledig, gwaith cwrs, arholiadau ac asesiadau di-arholiad, neu gamymddwyn wrth gynnal arholiadau/asesiadau a/neu drin papurau cwestiynau arholiad, sgriptiau ymgeiswyr, taflenni marcio, cofnodion asesu cronnus, canlyniadau a ffurflenni hawlio tystysgrif

4.2.1 Dyma enghreifftiau o weithredoedd a allai gael eu hystyried yn gamymddwyn gan staff y coleg. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr a gall y Coleg ystyried achosion eraill o gamymddwyn fel y gwêl yn ddoeth:

4.2.1. Cynorthwyo myfyrwyr i gynhyrchu gwaith ar gyfer asesiad gan gynnwys trwy gamddefnyddio offer deallusrwydd artiffisial, lle mae gan y cymorth y potensial i ddylanwadu ar ganlyniadau asesiad, er enghraifft lle mae'r cymorth yn cynnwys staff coleg yn cynhyrchu gwaith i'r myfyriwr.

4.2.2. Cynhyrchu datganiadau tystion ffug, er enghraifft ar gyfer tystiolaeth nad yw'r myfyriwr wedi'i chynhyrchu.

4.2.3. Caniatáu i dystiolaeth, y mae'r aelod staff yn gwybod nad yw'n eiddo i'r myfyriwr ei hun, gael ei chynnwys mewn aseiniad/tasg/portffolio/gwaith cwrs myfyriwr.

4.2.4. Camddefnyddio'r amodau ar gyfer gofynion arbennig myfyrwyr, er enghraifft lle caniateir cymorth i fyfyrwyr - ysgrifennydd, er enghraifft - sy'n dderbyniol hyd at y pwynt lle mae gan y cymorth y potensial i ddylanwadu ar ganlyniad yr asesiad.

4.2.5. Methu â chadw ffeiliau cyfrifiadurol myfyriwr yn ddiogel.

4.2.6. Ffugio cofnodion/tystysgrifau, er enghraifft trwy newid, amnewid, neu drwy dwyll.

4.2.7. Hawliadau tystysgrif twyllodrus, hynny yw hawlio tystysgrif cyn i'r myfyriwr gwblhau holl ofynion yr asesiad.

4.2.8. Methu â chadw papurau asesiad/arholiad/prawf yn ddiogel cyn yr asesiad/arholiad/prawf.

4.2.9. Cael mynediad heb awdurdod at ddeunydd asesu/arholiad/prawf cyn asesiad/arholiad/prawf.

**5. Delio â chamymddwyn**

5.1. Cyfrifoldeb Pennaeth y Ganolfan , neu enwebai addas, yw cynnal ymchwiliad i honiadau o gamymddwyn. Fel arfer, Cadeirydd Corff Llywodraethu'r Coleg, neu enwebai penodedig, fydd yn cynnal ymchwiliad i gamymddwyn drwgdybiedig yn erbyn Pennaeth y Ganolfan /

aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol / Is-bennaeth Ansawdd. Rhaid hysbysu Pennaeth y Ganolfan am y digwyddiad honedig, gan gynnwys yr Is-bennaeth Ansawdd cyn gynted â phosibl. Disgwylir cydweithrediad llawn gan staff y Coleg.

5.2 Cyfrifoldeb rheolwr atebol yr unigolyn sy'n rhoi gwybod am y camymddwyn drwgdybiedig yw ystyried a yw'r mater a godwyd yn gyfystyr â chamymddwyn neu a fyddai'n well ei godi drwy broses arall, h.y. Codi a Datrys neu drwy'r broses Gwyno. Os yw'r rheolwr atebol yn credu bod sail ddigonol i ymchwilio i gamymddwyn, byddant yn cysylltu ar unwaith â Phennaeth y Ganolfan neu enwebai addas.

5.3. Os bydd Pennaeth y Ganolfan yn darganfod neu'n amau unrhyw un o gamymddwyn, rhaid iddynt hwy neu enwebai addas roi gwybod i'r unigolyn a gyhuddir yn ysgrifenedig drwy e-bost cyn gynted â phosibl bod yr honiad hwn o gamymddwyn yn cael ei ymchwilio. Dylai hyn ddisgrifio natur y camymddwyn honedig yn ogystal â'r canlyniadau posibl pe bai camymddwyn yn cael ei brofi. Bydd Pennaeth y Ganolfan neu enwebai addas yn penodi swyddog ymchwilio priodol ac yn hysbysu'r sefydliad dyfarnu priodol (os yn berthnasol).

5.4 Rhaid i'r Coleg roi cyfle i'r unigolyn a gyhuddir gael eu cyfweld gan y swyddog ymchwilio penodedig a darparu datganiad ysgrifenedig ynghylch yr honiadau a wnaed o fewn amserlen benodol. Rhaid i'r Coleg hefyd hysbysu unrhyw un a gyhuddir o gamymddwyn am y llwybrau apelio os gwneir dyfarniad yn eu herbyn.

5.5. Mae Pennaeth y Ganolfan neu enwebai addas yn cadw'r hawl i gael mynediad at unrhyw ddogfennau a gedwir gan staff y coleg mewn perthynas â honiadau o gamymddwyn. Lle canfyddir bod aelodau staff wedi camymddwyn, bydd adroddiad yn cael ei baratoi gan Bennaeth y Ganolfan ~~Pennaeth~~, neu enwebai addas, a ddylai hefyd gynnwys manylion y camau a gymerwyd gan y Pennaeth neu'r Corff Llywodraethu. Efallai y bydd angen hysbysu'r awdurdodau ariannu neu'r awdurdodau rheoleiddio yn ystod y broses hon. Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i hysbysu'r heddlu mewn rhai achosion difrifol o gamymddwyn.

5.6 Mae’r siart llif atodedig yn manylu ar y broses adrodd

**6. Cosbau a roddir gan y coleg**

6.1. Lle profir bod aelod o staff wedi camymddwyn, bydd yn cael ei drin o dan y polisi disgyblu,

6.2. Lle na phrofir bod aelod o staff wedi camymddwyn, ond lle codir amheuaeth ynghylch cymhwysedd galwedigaethol yr aelod o staff dan sylw, mae'r Coleg yn cadw'r hawl i roi mesurau hyfforddi, cefnogi a/neu fonitro ychwanegol ar waith, yn unol â gweithdrefn Gallu'r Coleg.

**7. Apeliadau**

7.1. Mae'r Coleg wedi sefydlu gweithdrefnau ar gyfer staff aseswyr sy'n ystyried apeliadau yn erbyn cosbau a sancsiynau sy'n deillio o gamymddwyn.

7.2 Gellir dod o hyd i’r broses apelio yn adran 13 - Apelio yn erbyn Sancsiynau Disgyblu’r

Polisi Disgyblu (Staff).

**8. Cyfeiriadau**

| | |
|---|---|
| Polisïau a Gweithdrefnau Camymddwyn Drwgdybiedig y JCQ | Camymddwyn y JCQ |